OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif 1418 (Cy. 253)

# YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019

*Gwnaed - - - - 28 Hydref 2019*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2)*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol â pharagraff 1(9) o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r offeryn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**2**), ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio'r Rheoliadau hyn.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

### Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014

**2.** Yn Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014(**3**), ar ôl rheoliad 14 mewnosoder—

(**1**) 2018 p. 16.
(**2**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1.
(**3**) O.S. 2014/2303 (Cy. 227), y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

"**Darpariaeth drosiannol: ymadael â'r UE**

**15.**—(1) Ni chaiff swyddog awdurdodedig o awdurdod bwyd gyflwyno i berson hysbysiad gwella sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio ag Erthygl 7(1) yn unol ag Erthygl 7(4), neu Erthygl 36(2)(a) neu (b) o FIC—

(a) pe bai'r hysbysiad gwella yn ymwneud â chynnyrch penodedig a roddwyd ar y farchnad o fewn y cyfnod cyn y diwrnod ymadael; a

(b) pe na bai labelu'r cynnyrch penodedig wedi methu â chydymffurfio ag FIC fel yr oedd y Rheoliad hwnnw yn cael effaith yng nghyfraith yr UE yn union cyn y diwrnod ymadael.

(2) Caniateir i gynhyrchion y mae paragraff (1) yn gymwys iddynt barhau i gael eu marchnata nes i'r stociau a ddelir gan berson o fewn y cyfnod cyn y diwrnod ymadael gael eu disbyddu.

(3) Ni chaiff swyddog awdurdodedig o awdurdod bwyd gyflwyno i berson hysbysiad gwella sy'n ymwneud â methiant i gydymffurfio ag Erthygl 7(1) yn unol ag Erthygl 7(4), neu Erthygl 36(2)(a) neu (b) o FIC—

(a) pe bai'r hysbysiad gwella yn ymwneud â chynnyrch penodedig a roddwyd ar y farchnad o fewn y cyfnod sy'n dechrau â'r diwrnod ymadael ac yn dod i ben â diwedd y cyfnod perthnasol;

(b) os nad yw'r cynnyrch penodedig yn gynnyrch y mae paragraff (1) yn gymwys iddo; ac

(c) pe na bai labelu'r cynnyrch penodedig wedi methu â chydymffurfio ag FIC fel yr oedd y Rheoliad hwnnw yn cael effaith yng nghyfraith yr UE yn union cyn y diwrnod ymadael.

(4) Caniateir i gynhyrchion gwin y mae paragraff (3) yn gymwys iddynt barhau i gael eu marchnata nes i'r stociau a ddelir gan berson ar y diwrnod ymadael gael eu disbyddu.

(5) Yn y rheoliad hwn—

ystyr "cyfnod perthnasol" ("*relevant period*") yw'r cyfnod o dair blynedd sy'n dechrau â'r diwrnod ar ôl y diwrnod y mae'r diwrnod ymadael yn digwydd;

ystyr "cynhyrchion gwin" ("*wine products*") yw cynhyrchion y mae Rhan 2 o Atodiad 7 i Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol yn gymwys iddynt;

ystyr "cynnyrch penodedig" ("specified product") yw cynnyrch y gellir ei adnabod yn unigol a roddir ar y farchnad yn gyfreithlon ac sy'n dwyn dangosiad a restrir ym mhwyntiau 5, 6 neu 7 o Atodiad 10 i Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 668/2014 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1151/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch cynlluniau ansawdd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a deunydd bwyd(**4**), fel yr oedd y Rheoliad hwnnw yn cael effaith yng nghyfraith yr UE yn union cyn y diwrnod ymadael;

ystyr "hysbysiad gwella" ("*improvement notice*") yw hysbysiad gwella yn unol â rheoliad 12(1)."

(**4**) OJ Rhif L 179, 19.6.2012, t. 36.

*Lesley Griffiths*
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

28 October 2019

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pŵer a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae rheoliad 2 yn mewnosod darpariaeth drosiannol yn Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.